

**ADRODDIAD Y RHEOLWR GWASANAETHAU
GWEINYDDOL A DEMOCRATAIDD**

PWNC:

Y CYNLLUN IAITH GYMRAEG: ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL

Bydd yr Aelodau'n gwybod eisoes fod yr Awdurdod wedi mabwysiadu Cynllun Iaith Gymraeg. Y Cynllun hwnnw sy'n pennu sut fydd yr Awdurdod yn arfer yr egwyddor y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi Adroddiad Monitro blynyddol ar ei berfformiad ar sail y Cynllun, a chyflwyno'r adroddiad i Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Mae'r wybodaeth yn yr adroddiad monitro, a gaiff ei ddsbarthu i'r Aelodau, wedi'i gosod o dan benawdau penodol, ac ar ffurf sy'n cydymffurfio â gofynion y Comisiynydd.

ARGYMHELLIAD:

Bod yr Aelodau'n cadarnhau'r adroddiad i'w gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg.

Papurau cefndir:

Cynllun Iaith Gymraeg Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

(Os hoffech fwy o wybodaeth cysylltwch â Janet Evans, y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd ar estyniad 4834, neu drwy anfon e-bost at janete@pembrokeshirecoast.org.uk)



CYNLLUN IAITH GYMRAEG PARC CENEDLAETHOL ARFORDIR PENFRO: ADRODDIAD MONITRO 2013/14

1. Rhagarweiniad

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn gorff llywodraeth leol annibynnol, a sefydlwyd yn unol â Deddf yr Amgylchedd 1995, a ddaeth i'w llawn rym ar 1 Ebrill 1996. Ein hamcanion (fel y'u hailddiffiniwyd yn Neddf yr Amgylchedd 1995) yw:

- gwarchod ac ychwanegu at harddwch naturiol, bywyd gwylt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol.
- rhoi gwell cyfle i'r cyhoedd fwynhau a deall nodweddion arbennig yr ardal, ac, wrth wneud hynny -
- mynd ati i feithrin lles economaidd a chymdeithasol y cymunedau lleol yn y Parc.

Mae'r Awdurdod yn cael ei lywodraethu gan 18 Aelod, a phenodwyd 12 o'r rheini gan Gyngor Sir Penfro a 6 gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Parc Cenedlaethol yn ymestyn dros ardal o 612km² a dyma un o barciau mwyaf dwys ei boblogaeth ymhlith 15 parc cenedlaethol y DU. Mae 22,644 o bobl yn byw mewn rhyw 50 ardal cyngor cymuned. Mae'r ffigur hwn yn cyfateb i ddwysedd poblogaeth o 37 person i bob cilometr sgwâr, o gymharu â Bannau Brycheiniog lle mae 25 person i bob cilometr sgwâr, ac Eryri lle mae 12 person i bob cilometr sgwâr. Yng nghyfrifiad 2011 roedd 20.8% o drigolion Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn gallu siarad Cymraeg, sy'n ostyngiad o 2.3% ers cyfrifiad 2001.

Ar 31 Mawrth 2013, roedd 40 o'r 160 aelod o staff yr Awdurdod (25%) wedi nodi eu bod yn siarad Cymraeg. Mae hynny'n gynnydd bychan ar ffigur y ddwy flynedd diwethaf, sef 23% ac 20%, yn y drefn honno.

Prif Weithredwr Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro sy'n bennaf gyfrifol am y Cynllun Iaith Gymraeg, er bod yr agweddau ymarferol bob dydd wedi'u dirprwyo i'r Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democritaidd.

2. Hyfforddiant gloywi iaith

Yn yr adolygiadau perfformiad a gynhelir gyda'r holl staff, nodir yr angen (neu'r cyfle) i ddysgu Cymraeg. Pennir y cwrs mwyaf priodol ar gyfer yr unigolyn dan sylw, boed hynny yn ystod oriau gwaith neu fin nos. Fel arfer, caiff y cyrsiau eu hariannu gan yr Awdurdod.

Yn ystod 2013, trefnwyd nifer o sesiynau ar gyfer staff a oedd yn dysgu Cymraeg i gwrdd â'i gilydd ac â chydweithwyr Cymraeg eu hiaith i ymarfer eu sgiliau (gweler Atodiad 1).

3. Ymwybyddiaeth o'r iaith

Caiff pob aelod o staff hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r iaith fel rhan o'r broses gynefino. Fel y nodwyd yn ein hymateb i gwestiwn 116 o Holiadur Ymchwiliad Safonau Comisiynydd y Gymraeg, rydym yn bwriadu comisiynu rhagor o hyfforddiant pan fydd y safonau newydd wedi eu cyhoeddi.

4. Cyfieithwyr

Mae pob un o'r cyfieithwyr a ddefnyddir gan yr Awdurdod yn aelodau o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru. Bydd gofyn i unrhyw gyfieithwyr newydd a ddefnyddir gan yr Awdurdod ddangos eu bod yn aelod o'r Gymdeithas honno. Mae'r Awdurdod wedi datgan bod ganddo ddi-ddordeb mewn bod yn rhan o Fframwaith Rhannu Gwasanaethau Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd Llywodraeth Cymru, sydd i ddechrau yn ystod haf 2014.

5. Cyhoeddi Dangosyddion Perfformiad

Caiff y Dangosyddion Perfformiad yn y Cynllun eu hadrodd yn flynyddol yn Strategaeth Gorfforaethol yr Awdurdod. Caiff perfformiad ei fonitro gan y Pwyllgor Adolygu Gwasanaethau Archwilio a Chorfforaethol.

6. Gweithio gyda phartneriaid a/neu'r gymuned

Mae'r staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau wrth ffurfio neu ymuno ag unrhyw bartneriaeth newydd ar ran yr Awdurdod. Pan gaiff adroddiadau eu cyhoeddi ar y cyd gan bartneriaethau y mae'r Awdurdod yn ymwneud â nhw, bydd y swyddogion yn sicrhau bod y sefydliad sy'n arwain yn gwybod am ofynion cynllun iaith Gymraeg yr Awdurdod.

Mae'r Awdurdod yn cydweithio ag Amgueddfa Cymru yn Oriel y Parc, sy'n eiddo i'r Awdurdod. Yno, mae'n cyflwyno arddangosfeydd a gweithgareddau i ddehongli'r dirwedd drwy gasgliadau'r Amgueddfa. Mae'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth, a ddiwygiwyd yn 2013, yn nodi bod yn rhaid i unrhyw ddeunydd

dehongli fod mewn 'arddull tŷ' penodol, a byddai'n rhaid iddynt gydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg yr Awdurdod.

Roedd yr Awdurdod yn un o'r partneriaid a oedd yn cefnogi'r rhan a chwaraeodd Sir Benfro yn y diwrnod "Shwmae/Su'mae" ar 15 Hydref 2013 (gweler Atodiad 2).

Mae'r Awdurdod yn gweithio'n agos gyda chymunedau Sir Benfro mewn sawl ffordd, ac un o'r rheini yw cefnogi sioeau lleol. Cawsom wobwr am ein cynrychiolaeth yn Sioe Abergwaun yn 2013 (gweler Atodiad 3).

7. Gwasanaethau a gyflenwir gan sefydliadau eraill ar ran yr Awdurdod

Caiff rhai o'r gwasanaethau y mae'r Awdurdod yn eu darparu i'r cyhoedd eu cyflawni ar ein rhan gan sefydliadau, asianaethau eraill, ac ati. Mae pob prosiect adeiladu yn cael ei fonitro gan Swyddog Prosiectau Adeiladu'r Awdurdod, sy'n gofalu fod unrhyw arwyddion sydd eu hangen yn cael eu darparu'n ddwyieithog. Caiff pob gwahoddiad i dendro am gontractau dros £25,000 eu cyhoeddi'n ddwyieithog ar wefan y Llywodraeth, Gwerthwch i Gymru.

8. Prif Ffrydio'r Gymraeg

Rhaid i awduron adroddiadau i'r Awdurdod a'i Bwyllgorau ddilyn templed, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddyn nhw gymryd i ystyriaeth yr effaith y gallai'r mater dan sylw ei gael ar gyllid yr Awdurdod a/neu ar gydraddoldeb, risg a chydymffurfiaeth. Caiff yr holl adroddiadau eu cloriannu gan reolwr llinell yr awdur/Cyfarwyddwr a chan y Prif Weithredwr cyn cael eu cyflwyno i'r aelodau eu hystyried. Fel y nodwyd yn ymateb yr Awdurdod i Holiadur Ymchwiliad Safonau'r Comisiynydd, mae swyddogion wrthi'n datblygu proses fwy trwyadl o asesu'r effaith ar gydraddoldeb.

Mae Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol a'r Cynllun Datblygu Lleol yn mynd drwy broses lem i arfarnu pa mor gynaliadwy ydynt (gweler ymateb yr Awdurdod i gwestiwn 97 yn Holiadur Ymchwiliad Safonau y Comisiwn am ragor o fanylion.)

9. Cyhoeddiadau

9.1 Cyhoeddiadau i ymwelwyr a/neu gyhoeddiadau gweithgareddau

Mae'r Awdurdod yn cyhoeddi nifer o gyhoeddiadau ac mae'r rheini i'w cael o'r pencadlys ym Mharc Llanion neu o'r canolfannau yn Oriol y Parc, Dinbych-y-pysgod, Trefdraeth, Caeriw a Chastell Henllys. O'r 28 taflen ddi-dâl, mae 23 ohonynt yn ddwyieithog, a chaiff 5 arall eu cyhoeddi'n fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Caiff ein taflen wybodaeth gyffredinol ei chyhoeddi mewn 6

iaith, sef Cymraeg, Iseldireg, Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg a Phwyleg. Yn Saesneg yn bennaf y cyhoeddir *Coast to Coast*, ein papur newydd yn yr haf, ond mae ynddo rai erthyglau Cymraeg (yn unol â'n cynllun iaith Gymraeg). Serch hynny, rydym hefyd yn lanlwytho fersiwn 'tudalennau tro' Cymraeg ar ein gwefan.

O'r 23 cyhoeddiad a gaiff eu gwerthu, mae 18 ohonynt yn ddwyieithog ac mae 5 arall yn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

Ceir rhestr o'r cyhoeddiadau hyn yn Atodiad 4.

9.2 Cyhoeddiadau corfforaethol

Rydym hefyd yn paratoi amryw o gyhoeddiadau corfforaethol, a cheir rhestr o'r rheini yn Atodiad 5.

O'r 28 a restrir, mae 1 yn fersiwn ddwyieithog ac mae 24 yn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Mae un ddogfen, sef *The cumulative impact of wind turbines*, yn ddogfen dechnegol sydd newydd ei mabwysiadu ac sydd yn y broses o'i chyfieithu.

9.3 Datganiadau i'r wasg

Caiff yr holl ddatganiadau i'r wasg eu cyhoeddi'n ddwyieithog.

10. **Cymorth grant**

Mae'n ofynnol i bob ymgeisydd sy'n llwyddo i gael cymorth grant o'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy gyhoeddi pob llenyddiaeth, arwyddion ac ati yn ddwyieithog fel rhan o feini prawf y grant.

11. **Meddalwedd TG Cymraeg**

Mae modd i bob aelod o staff ddewis lawrlwytho'r feddalwedd Gymraeg ar eu cyfrifiaduron gwaith a gallant hefyd ddefnyddio'r fersiwn Gymraeg o system ddata Ffynnon.

12. **Dangosyddion perfformiad**

12.1 PI1: Gwasanaethau rheng flaen

Nifer a chanran y swyddi yn ein Canolfan Cyswllt Cwsmeriaid a ddynodwyd yn swyddi lle mae'r "Gymraeg yn hanfodol" ac sydd wedi'u llenwi gan staff dwyieithog.

Nifer y:

Swyddi llawn amser cyfatebol: 3

Staff a gyflogir:	5
Siaradwyr Cymraeg:	
Rhugl:	1
Dysgwyr:	2
Canran:	60%

12.2 PI2: Adnoddau dynol – sgiliau

Nifer a chanran y staff:

- (a) sydd wedi cael hyfforddiant iaith Gymraeg hyd at lefel benodol o gymhwyster:

Lefel cymhwyster	Nifer y staff	% o'r holl staff
Safon uwch	2	1
'TGAU' / Lefel 'O'	37	23

Roedd 5 aelod o staff wedi cael hyfforddiant iaith Gymraeg yn 2013/14.

- (b) sydd wedi cael hyfforddiant ennyn ymwybyddiaeth o'r iaith.

Gweler adran 3 uchod.

12.3 PI3: Adnoddau dynol – cydraddoldeb ac amrywiaeth

Mae 40 gweithiwr (25% o weithlu'r Awdurdod) yn medru siarad Cymraeg. Mae 27 yn disgrifio'u hunain fel rhugl, ac mae'r 13 arall yn disgrifio'u hunain yn "ddysgwyr" neu'n "llai rhugl". Mae hynny'n gynnydd bychan ar ffigur y llynedd, sef 23%, a'r flwyddyn cynt, sef 20%.

Nifer a chanran y staff o fewn gwasanaethau'r Awdurdod sy'n gallu siarad Cymraeg fesul:

- (a) Is-adran gwasanaeth:

Gwasanaeth	Nifer staff	Canran
Cyfeiriad a chynllunio	4	2.5%
Darganfod a Chyflenwi	27	17%
Prif Weithredwr/Gwasanaethau Cymorth	9	5.5%

- (b) Graddau cyflog swyddi:

Gradd	Nifer staff	Canran
Graddau 1 – 3	20	12.5%
Graddau 4 – 6	11	7%
SO1 ac uwch	9	5.5%

(c) Gweithle:

Gweithle	Nifer staff	Canran
Llanion	14	9%
Staff allanol	9	5.5%
Canolfannau ymwelwyr	6	4%
Castell Caeriw/Castell Henllys	11	7%

12.4 PI4: Safonau'r gwasanaethau iaith Gymraeg

Nifer y cwynion a dderbyniwyd ynglŷn â'r modd y gweithredir y Cynllun Iaith a'r ganran yr ymdriniwyd â hwy yn unol â safonau corfforaethol yr Awdurdod:

Nifer y cwynion a gafwyd: 0

Nifer y cwynion yr ymdriniwyd â hwy yn unol â'r safonau corfforaethol: Amh.

O'r 13 cwyn a ddaeth i law yn ystod 2013/14, roedd un ohonynt yn Gymraeg (ond nid oedd yn gysylltiedig â gweithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg). Anfonwyd ateb Cymraeg, wrth reswm.

Derbynnir bod diffyg cwynion, neu braidd ddim cwynion, yn dangos, o bosibl, nad yw'r cyhoedd yn pryderu rhyw lawer am y gwasanaethau dwyieithog a ddarperir gan yr Awdurdod; serch hynny, gellir ei ystyried hefyd yn arwydd cadarnhaol nad oes yr un unigolyn a fu'n ymwneud â'r Awdurdod wedi teimlo mor anfodlon fel bod angen iddo gwyno.

13. **Casgliad**

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn ymroddedig i drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal, ac i gyfrannu at gynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru ddwyieithog. Yng Nghynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol, a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod ym mis Rhagfyr 2008, rhagwelir, erbyn 2035, y bydd y trefi, y pentrefi a'u cymunedau yn amrywiol ac unigryw, a bydd yr iaith Gymraeg yn ffynnu ym mhob rhan o'r Parc.

Rydym wedi mabwysiadu templed ar gyfer adrodd i'r Awdurdod, sy'n ysgogi swyddogion i ystyried a yw eu polisi/cynnig yn cydymffurfio â gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg. Mae'r swyddogion wrthi'n datblygu asesiad mwy trwyadl o'r effaith ar gydraddoldeb.

O fewn yr Awdurdod ei hun, byddwn yn parhau i hyrwyddo'r Gymraeg ym mhopeth a wnawn, a byddwn yn annog y staff presennol i ddysgu Cymraeg, neu i wella eu sgiliau. Er gwaethaf y problemau a gafwyd gyda recriwtio yn y gorffennol, byddwn yn gwneud ein gorau i recriwtio staff dwyieithog i'r swyddi hynny lle barnwn fod y Gymraeg yn hanfodol.

14. Cyhoeddi gwybodaeth am berfformiad

Ar hyn o bryd caiff perfformiad yr Awdurdod ar sail ei Gynllun Iaith Gymraeg ei adrodd yn flynyddol yn y Cynllun Corfforaethol. Yn y dyfodol caiff y perfformiad hwnnw ei fonitro gan y Pwyllgor Adolygu Gwasanaethau Archwilio a Chorfforaethol.


Caiff yr adroddiad monitro hwn ei gyhoeddi ar ein gwefan hefyd.



Grŵp o ddysgwyr Cymraeg a/neu siaradwyr Cymraeg yn ystod sesiwn ddysgu ar ddiwrnod Shwmae / Su'Mae



Shwmae! - Hi! How are you? ***	Bore da - Good morning ***	P'nawn da - Good afternoon ***
<p>Byw yn Gymraeg yn Sir Benfro Living in Welsh in Pembrokeshire</p> <p>Cyngor Sir Benfro Carpiau gwasanaethau o'r radd flaenaf i bobl Sir Benfro Providing quality services for the people of Pembrokeshire www.pembrokeshire.gov.uk</p> <p>Menter Iaith Sir Benfro Hybu ac atgynhybu defnyddio'r Gymraeg Promoting bilingualism in the county www.menter.sirbenfro.com</p> <p>Coleg Sir Benfro Adroddig a hyfforddiant di 16 Post 16 education and training www.coleg.sirbenfro.ac.uk</p> <p>Urdd Sir Benfro Mudlad gweithdy i bobl ifanc Cymru An organization for Children and Young people www.urdd.org</p> <p>Clwb Ffermwyr Ifane Mudlad gweithdy i bobl rhwng 10 a 28 oed A rural organization for 10 - 28 year olds www.pembrokeshireyouth.org.uk</p>	<p>Sir Benfro yn Dysgu Cystlau Gymraeg i oedolion Welsh for adults courses www.pembrokeshire.gov.uk/learningpembrokeshire</p> <p>TWF Cymraeg o'r crud 2 Languages from day 1 www.twf.cymru.com</p> <p>Mudlad Meithrin Arbenigwyr y blynyddoedd cynnar Welsh early years specialists www.meithrin.co.uk</p> <p>Merched y Wawr Mudlad Cymraeg i fenywod A Welsh organization for women www.merchedydwawr.co.uk</p> <p>Paro Cenedlaethol Arfordir Penfro Yn gofgu am ein Parc Cenedlaethol Looking after our National Park www.pembrokeshire-np.co.uk</p> <p>Barclays I fardio yn Gymraeg ffonwch... To bank in Welsh, phone 0647 44 22 11</p>	<p>Croeso - Welcome / You're welcome ***</p> <p>Dim problem - No problem ***</p>
<p>Yngho - Thank you ***</p> <p>Iawn - OK ***</p> <p>Dra hawn - Very good ***</p>	<p>Hwyl - Bye ***</p> <p>Noswath dda - Good evening ***</p> <p>Nos da - Good night ***</p>	<p>***</p>



<p>Shwmae (shoe-my) Croeso (Kroy-saw) Bore da (Bore-e dah) P'nawn da (P'noun dah) Dim problem (Dim prob-lem) Dioleh (Dee-olkh) Hwyl (Hoyle)</p>	<p>Hi! How are you? Welcome / You're welcome Good morning Good afternoon No problem Thank you Bye</p> <p><i>Rho gynnig arni! Have a go!</i></p> <p>www.facebook.com/shwmae @shwmaesirbenfro</p>
	<p>Card Price</p>

For immediate release

Tuesday September 17th 2013

National Park commitment to Welsh language lands bilingual prize

Pembrokeshire Coast National Park Authority's bilingual presence at community events around the county has been recognised with an award at a local agricultural show.

The Park Authority's mobile interpretation stand has been present at a range of events around the county this year, from Pembrokeshire Fish Week, to the Really Wild Food Festival, as well as local agricultural shows, including Fishguard Show, where it received an award given by Menter Iaith Sir Benfro for the best bilingual stand.

The mobile stand, which was recently refurbished, includes a range of leaflets and interpretation panels with a host of information on the Pembrokeshire Coast National Park, its wildlife, landscape and the National Park Authority's work to protect it.

National Park Ranger Richard Vaughan, who accepted the award on behalf of the Authority, said it was the first time the Authority had received a prize for its presence at the show.

He said: "We attend local agricultural shows and many other community events to give people an opportunity to meet the National Park staff on the ground in their area and chat through any questions or issues they may have.

"It's an honour to win this award as it recognises our commitment to the Welsh language and the bilingual communities and landowners who live and work in the National Park."

National Park Authority Chairman Cllr Mike James added: "The Welsh language is an extremely important part of the social and cultural heritage of the Pembrokeshire Coast National Park.

"The Authority's dedication to supporting the Welsh language can be seen through our Welsh Language Policy, which aims to provide a fully-bilingual service through all possible areas of work.

"This includes information on our website, press releases, leaflets and an app which people use on a daily basis to access information on this spectacular part of the world."

Ends.

Caption: National Park Ranger Richard Vaughan is pictured receiving the

award at Fishguard Show.

Caption: The Park Authority's mobile interpretation stand has been present at a range of events around the county.

Issued by Medi George National Park Authority Communications, tel 01646 624867 or email medig@pembrokeshirecoast.org.uk.

Ymroddiad y Parc Cenedlaethol i'r iaith Gymraeg yn ennill gwobr ddwyieithog

Mae presenoldeb dwyieithog Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro mewn digwyddiadau cymunedol o gwmpas y sir wedi cael ei gydnabod gan wobr mewn sioe amaethyddol leol.

Mae stondin dehongli symudol Awdurdod y Parc wedi bod yn bresennol mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau o gwmpas y sir eleni, o Wythnos Bysgod Sir Benfro, at Wyl Fwyd Gwyllt lawn, ynghyd â sioeau amaethyddol lleol, yn cynnwys Sioe Abergwaun, lle cafodd wobr, a roddwyd gan Fenter Iaith Sir Benfro, am y stondin dwyieithog orau.

Mae'r stondin symudol, a adnewyddwyd yn ddiweddar, yn cynnwys ystod o daflenni a phaneli dehongli gyda digonedd o wybodaeth am Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, ei fywyd gwyllt, ei dirwedd a gwaith Awdurdod y Parc yn ei ddiogelu.

Dywedodd Richard Vaughan, Parcmon Parc Cenedlaethol, a dderbyniodd y wobr ar ran yr Awdurdod, mai dyma'r tro cyntaf i'r Awdurdod dderbyn gwobr am eu presenoldeb yn y sioe.

Dywedodd: "Yr ydym yn mynychu sioeau amaethyddol lleol a nifer fawr o ddigwyddiadau cymunedol eraill er mwyn rhoi'r cyfle i bobol i gwrdd â staff y Parc Cenedlaethol yn eu hardal a thrafod unrhyw gwestiynau neu faterion sydd ganddynt dan sylw.

"Mae'n anrhydedd i ennill y wobr hon gan ei fod yn cydnabod ein hymroddiad i'r iaith Gymraeg a'r cymunedau a'r perchnogion tir dwyieithog sy'n byw ac yn gweithio yn y Parc Cenedlaethol."

Ychwanegodd y Cynghorwr Mike James, Cadeirydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol: "Mae'r iaith Gymraeg yn rhan bwysig iawn o dreftadaeth gymdeithasol a diwylliannol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

"Gellir gweld ymroddiad yr Awdurdod i gefnogi'r iaith Gymraeg trwy ein Polisi'r Iaith Gymraeg, sy'n anelu at ddarparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog trwy bob ardal o waith posibl.

"Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth ar ein gwefan, datganiadau i'r wasg, taflenni ac app y gall pobl ei ddefnyddio yn ddyddiol i gael mynediad i wybodaeth am y rhan ysblennydd hon o'r byd".

Diwedd.

Pennawd: Yn y llun gwelir Parcmon Richard Vaughan yn derbyn y wobr yn Sioe Abergwaun.

Pennawd: Mae stondin dehongli symudol Awdurdod y Parc wedi bod yn bresennol mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau o gwmpas y sir eleni.

*Cyhoeddwyd gan Medi George, Swyddfa Cyfathrebu Awdurdod y Parc
Cenedlaethol, ffoniwch 01646 624867 neu e-bostiwch
medig@pembrokeshirecoast.org.uk.*

THE AGENDA... news from the corridors of power

Follow us on Twitter @WTelegraph
Facebook.com/WesternTelegraph

Minor gripes are on agenda

PEMBROKESHIRE County Council's Standards Committee was due to discuss an 'informal resolution process for member-on-member complaints' as the *Western Telegraph* went to press.

The Public Services Ombudsman for Wales and Welsh Government are keen to see an informal resolution process voluntarily introduced to deal with minor or low-level complaints by a councillor about another member at all authorities.

A report prepared for the committee by the council's monitoring officer states that the Welsh Government is "threatening" to introduce statutory measures to make it mandatory.

The report adds that the definition of a low-level complaint is 'the alleged failure of one member to show respect and consideration for others or a breach of the duty on a member not to make vexatious, malicious or frivolous complaints'.

Members will discuss the three established local procedures for dealing with such complaints already in place in Gwynedd, Swansea and Rhondda Cynon Taf.

The suggested Pembrokeshire County Council local procedure will have two stages - meetings with an appointed mediator, and if an agreement is not reached the complainant has the option to request that the Local Resolution Panel (LRP) considers the com-

Committee meetings

PEMBROKESHIRE COUNTY COUNCIL, COUNTY HALL, HAVERFORDWEST

Thursday, September 26 - Children and Families Overview and Scrutiny Committee, 10am.

Monday, September 30 - Corporate Governance Committee, 10am.

Monday, September 30 - Democratic Services Committee, 2.30pm.

Tuesday, October 1 - Planning and Rights of Way Committee, 10am.

Thursday, October 3 - Safeguarding Overview and Scrutiny Committee, 10am.

PEMBROKESHIRE COAST NATIONAL PARK, LLANION PARK, PEMBROKE DOCK

Wednesday, October 2 - Sustainable Development Fund Committee, 10am

HYWEL DDA HEALTH BOARD
Thursday, September 26 - St Peter's Civic Hall, Carmarthen, 10am.



LANGUAGE AWARD: National Park ranger Richard Vaughan is pictured receiving the award at Fishguard Show. (1166364)

Park Authority scoops Welsh-language award

WITH a bilingual chief executive, chairman, large numbers of staff and communications Pembrokeshire Coast National Park Authority (PCNPA) is well known for its commitment to the Welsh language.

The Park Authority's mobile interpretation stand has been present at the county this summer has been recognised with an award.

The Park Authority's mobile interpretation stand has been present at a range of events around the county this year, from Pembrokeshire Fish Week, to the Really Wild Food Festival, as well as local agricultural shows, including Fishguard Show, where it

By Katy Woodhouse
01437 761753
kwo@westerntelegraph.co.uk
Twitter @WTelegraph

received an award given by Menter Iaith Sir Benfro for the best bilingual stand.

The mobile stand, which was recently refurbished, includes a range of leaflets and interpretation panels with a host of information on the Pembrokeshire Coast National Park, its wildlife, landscape and the National Park Authority's work to protect it.

National Park ranger Richard Vaughan, who accepted the award on behalf of the authority, said it was the first time the authority

had received a prize for its presence at the show.

He said: "We attend local agricultural shows and many other community events to give people an opportunity to meet the National Park staff on the ground in their area and chat through any questions or issues they may have."

"It's an honour to win this award as it recognises our commitment to the Welsh language and the bilingual communities and landowners."

Menter Iaith Sir Benfro is a Welsh-language initiative which aims to promote bilingualism within the county. Its main projects include working with families, young people and the

community.

It also offers advice and practical help including a translation service if you are designing tickets, programmes, posters or signs, information for voluntary and community organisations and public bodies, details of social and cultural events and an opportunity to participate in events such as fun days, gigs and quizzes.

National Park Authority chairman Cllr Mike James added: "The authority's dedication to supporting the Welsh language can be seen through our Welsh-language policy, which aims to provide a bilingual service through all possible areas of work."

Mental health service partners

WORKING in partnership is paramount if mental health services are going to improve in Pembrokeshire.

That was the message to come from a presentation given to the Older Persons, Health and Well-being Scrutiny Committee meeting last week.

David Jenkins and Anne Davies, from Mental Health Services, began their talk by highlighting the Mental Health (Wales) Measure 2010, which was implemented last year.

It aims to promote well-being, recovery and resilience, improve access to support for people of all ages, increase the availability of services in primary care settings, develop effective services with improved outcomes and improve the primary and secondary care interface.

Local authorities in Pembrokeshire, Carmarthenshire and Ceredigion have together with Hywel Dda Health Board agreed a regional framework for the development of primary mental health support.

Mrs Davies said: "By next month we should be a high-functioning service across the three counties. In the past that wasn't always happening as each county was doing their own thing."

Approval granted at committee meeting

PEMBROKESHIRE Coast National Park Authority's Development Management Committee met last week to approve a number of applications in north Pembrokeshire.

They include a two-storey rear extension and excavation of a rear garden to provide parking spaces at Blaenwaun, Fordd Cllgwyn, Newport.

Retrospective planning permission was also granted for a cattle accommodation building, a dairy building, access track and silage storage at Velindre Farm, St Nicholas, Goodwick.

And the installation of an ATM on the left hand side of the post office in Long Street, Newport was also approved.

Park posters in line for marketing award

THERE was more good news for the National Park this week as it was announced that its retro-style posters have caught the eye of a national marketing awards scheme.

The National Park has been nominated for a CANMOL Wales Marketing Award - and has made it to the finals - for its poster campaign celebrating 60 years of the National Park.

Six nostalgic images of iconic places in the UK's only coastal National Park were displayed at railway

stations between Swansea and London Paddington in 2012, as well as key Olympic and Paralympic sites and tube stations.

The 2013 CANMOL awards scheme aims to celebrate the outstanding business results achieved in the past year through innovative and creative marketing.

The Park Authority's poster campaign was also a Chartered Institute of Marketing Excellence Awards finalist in 2012.



LOOKING GOOD: The retro-style posters celebrating 60 years of the Pembrokeshire Coast National Park. (1167209)

RHESTR O GYHOEDDIADAU 2013/141. Cyhoeddiadau di-dâl

Gwybodaeth gyffredinol:	Iaith
Taflenni cyffredinol y Parc Cenedlaethol	Fersiynau ar wahân mewn Cymraeg, Iseldireg, Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg a Phwyleg
Gweithgareddau:	Iaith
Diogelwch yn Gyntaf ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro	Dwyieithog
Côd Beicio Oddi-ar-y-ffordd	Dwyieithog
Côd Arferion Plymio ar gyfer Arfordir Sir Benfro	Dwyieithog
Cyfngiadau Dringo Cytûn Sir Benfro 2013	Dwyieithog
Cymerwch Her Llwybr yr Arfordir	Dwyieithog
Ewch heb draffig yn Sir Benfro (cyhoeddiad ar y cyd rhwng Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Her Iechyd Cymru a Chyngor Sir Penfro)	Dwyieithog
Mwynhau Traethau Sir Benfro	Dwyieithog
Prosiect Walkability Sir Benfro	Dwyieithog
Canllaw Iansio Freshwater East (cyhoeddiad ar y cyd rhwng Awdurdod y Parc Cenedlaethol a Sblash – cronfa her gweithgareddau hamdden dŵr Cymru)	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân
Darganfod <i>The Burrows</i> , Freshwater East	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân
Porthgain	Dwyieithog
Llwybr Hanesyddol Nanhyfer	Dwyieithog
Sychpant	Dwyieithog
Canllawiau ar gyfer digwyddiadau torri record a chystadleuol ar Lwybr Arfordir Penfro	Dwyieithog
Hyrwyddo:	Iaith
Castell Caeriw	Dwyieithog
Castell Henllys	Dwyieithog
Oriel y Parc	Dwyieithog
Canolfan Groeso Dinbych-y-pysgod	Dwyieithog
Coast to Coast	Saesneg yn bennaf, gyda rhai erthyglau Cymraeg. Fersiwn 'tudalennau tro' Cymraeg ar gael ar-lein.

Addysgol:	laith
Darganfod eich Parc	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân
Mas Draw	Dwyieithog
Arall:	laith
Cynnyrch Cilrhedyn	Dwyieithog
Help ar gyfer bywyd gwyllt ar eich tir	Dwyieithog
Llwybr Ditectif Gwyrdd (Oriol y Parc)	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân
Ysbrydoliaeth i Bawb (Oriol y Parc)	Dwyieithog
Hwyl yn yr Oriol (Oriol y Parc)	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân
Tocio Coed (cyhoeddiad ar y cyd rhwng Awdurdod y Parc Cenedlaethol a Chyngor Sir Penfro)	Dwyieithog
Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy: cynllunio ar gyfer dyfodol cynaliadwy	Dwyieithog
Y Grant Bach Gwyrdd: ariannu ar gyfer Sir Benfro gynaliadwy	Dwyieithog
Canllawiau Gwasanaeth Cynllunio	Dwyieithog

2. Cyhoeddiadau i'w gwerthu

Arweinlyfrau:	laith
Milltiroedd Llwybr Arfordir Sir Benfro Llwybr Cenedlaethol	Dwyieithog
Ymunwch â Meg a Gethin ar Antur Teithio Trwy Amser (cyhoeddiad ar y cyd gyda Chyfeillion Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro)	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân
Llyfryn Castell Caeriw	Dwyieithog
Tywyslyfrau:	laith
Darganfod harddwch Llwybr Arfordir Sir Benfro (pum taith gerdded i blant a'u rhieni)	Dwyieithog
Llwybrau i Bawb	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân
Trysorau Trefdraeth	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân
Cyfrinachau Saundersfoot	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân
Llwybr Chwilota Dinbych-y-pysgod	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân
Taflenni teithiau cerdded:	laith
Taflen Llwybr yr Arfordir 1 – Traeth	Dwyieithog

Poppit i Drefdraeth	
Taflen Llwybr yr Arfordir 2 – Trefdraeth i Ben Strwmbel	Dwyieithog
Taflen Llwybr yr Arfordir 3 – Pen Strwmbel i Abereiddi	Dwyieithog
Taflen Llwybr yr Arfordir 4 – Abereiddi i Solfach	Dwyieithog
Taflen Llwybr yr Arfordir 5 – Solfach i Sain Ffraid	Dwyieithog
Taflen Llwybr yr Arfordir 6 – Sain Ffraid i Sandy Haven	Dwyieithog
Taflen Llwybr yr Arfordir 7 – Sandy Haven i Freshwater West	Dwyieithog
Taflen Llwybr yr Arfordir 8 – Freshwater West i Broad Haven y De	Dwyieithog
Taflen Llwybr yr Arfordir 9 – Broad Haven y De i Skrinkle Haven	Dwyieithog
Taflen Llwybr yr Arfordir 10 – Skrinkle Haven i Lanrath	Dwyieithog
Bedd Morris	Dwyieithog
Aber y Nyfer	Dwyieithog
Cylchdaith Swnt Dewi	Dwyieithog
Cylchdaith Tyddewi - Santes Non – Porth Clais	Dwyieithog
Cylchdaith Penmaen Dewi	Dwyieithog
Cylchdaith Porth Mawr	Dwyieithog

Cyhoeddiadau corfforaethol

Teitl	Iaith
Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân
Cynllun Datblygu Lleol	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân
Y Strategaeth Gorfforaethol	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân
Cynllun Gwella	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân
Safonau ariannol	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân
Cynllun Hamdden	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân
Canllawiau Cynllunio Sir Benfro	Dwyieithog
Deddf Rhyddid Gwybodaeth: Cynllun Cyhoeddi Canllaw cais	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân
<u>Canllawiau Cynllunio Atodol</u>	
Colli gwestai a thai gwestai	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân
Rhwymedigaethau cynllunio	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân
Asesu cymeriad y dirwedd	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân
Dylunio cynaliadwy	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân
Parthau diogelu mwynau	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân
Ansefydlogrwydd tir – hen weithfeydd glo	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân
Safonau parcio	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân
Yr amgylchedd hanesyddol (archeoleg)	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân
Safleoedd geoamrywiaeth pwysig rhanbarthol yn Sir Benfro	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân
Dylunio blaen siop	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân
Ynni adnewyddadwy	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân
Lleoli a dylunio adeiladau fferm	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân
Ynni adnewyddadwy	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân
Hamdden	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân
Datblygiadau bach eu heffaith yn gwneud cyfraniad cadarnhaol (datblygiadau un blaned)	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân
Hygyrchedd	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân
The cumulative impact of wind turbines	Saesneg yn unig
Asesiad o gymeriad y morlun	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân
Dylunio cynaliadwy	Fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân